


Cyllid Cynaliadwy: Ar draws y Sbectrwm Incwm

Opsiynau incwm sydd ar gael i fudiadau gwirfoddol a chymunedol

Rhoddwr



Economi Rhoddion

Rhoi dyngarol, rhoddion gwirfoddol, elusengarwch pur. Mae'n darparu incwm anghyfyngedig i fudiad ei ddefnyddio fel y mynna i hybu ei nodau elusenol.

Cyllidwr



Nawdd Grant

Cyllid cyfyngedig fel arfer a ddarperir i gyflwyno canlyniadau penodedig a/neu ganlyniadau a gytunwyd gan y ddwy ochr. Mae cyllidwyr grant yn debygol o eisiau monitro'r hyn a wneir gyda'u buddsoddiad ac mae'n debygol y bydd ganddynt ddisgwyliadau clir am yr hyn a gyflawnir.

Prynwr



Marchnad Strwythuredig

Talu am nwyddau neu wasanaethau yn ôl y telerau a nodir mewn contract rhwng mudiad a phrynwr trydydd parti, boed o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

Defnyddiwr



Marchnad Agored

Yn rhan o gylch cyffredinol masnachu, mae ystod y gwasanaethau a'r nwyddau y gellir eu gwerthu yn gallu bod yn ddiddiwedd. Gwneir rhai mathau o fasnachu i gynhyrchu elw yn unig, tra gall mathau eraill gyfrannu at gyflawni cenhadaeth mudiad. Mae incwm a gynhyrchir yn y ffordd hon yn anghyfyngedig.

GOFYN

ENNILL

Ffynhonnell: NCVO ©

Mae gwahanol fathau o incwm ar gael ac yn cael eu rheoli mewn gwahanol ffyrdd ac yn cynnwys gwahanol berthnasod â'r unigolyn neu'r mudiad sy'n cyflenwi'r cyllid. Wrth ichi symud ar draws y sbectrwm o'r chwith i'r dde – o ofyn i ennill – disgwyliwch mwy yn gyfnewid am yr incwm.

Yn yr ystod o opsiynau mae cryn dipyn o amrywiaeth a phosibilrwydd. Gall cyllid cynaliadwy gynnwys yr holl ffyrddau incwm hyn, neu ystod fwy cyfyngedig – arallgyfeirio *ar draws* y sbectrwm, neu os nad yw hynny'n bosibl nac yn briodol, *mewn* ffordd benodol. Yr allwedd i gynnaladwyedd yw gwybod pa ffyrddau yw'r rhai cywir i'ch mudiad chi eu harchwilio a sut y gallwch ddatblygu'r gallu i'w sicrhau a'u rheoli.